

Diweddariad Polisi'r UE (EU2011.02):

Fframwaith Amlflwyddyn Ariannol yr UE

Diweddarwyd: 05 Gorffennaf 2011

Crynodeb o'r prif gynigion

Ar 29 Mehefin, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei gynigion deddfwriaethol ar gyfer **Fframwaith Amlflwyddyn Ariannol yr UE**¹ ar gyfer y cyfnod saith mlynedd rhwng **2014 a 2020**.

Mae'r **Fframwaith** yn gosod yr uchafswm o ran yr **ymrwmiadau a'r taliadau** y bydd yn rhaid glynu atynt yn y trafodaethau blynyddol ar gyllideb yr UE yn ystod y cyfnod saith mlynedd dan sylw. Mae'r Comisiwn wedi cynnig cynydd ar gyllideb 2007-2013, a hynny o €976 biliwn i **€1,025 biliwn ar gyfer ymrwmiadau** (cynnydd o 4.8%), ac o €925.5 biliwn i **€972 biliwn ar gyfer uchafswm taliadau** (cynnydd o 5.0%), sy'n unol â galwad Senedd Ewrop am leiafswm cynnydd o 5% yn y gyllideb.

Hefyd, clustnodwyd **€58 biliwn** o wariant yr UE ar gyfer y cyfnod tu hwnt i gyfnod y **fframwaith** hwn. Elfen fwyaf y ffigur hwn yw Cronfa Ddatblygu Ewrop (sy'n rhoi cymorth i'r byd datblygol).

Yr elfennau newydd yn y cynigion yw:

- **Cyllideb sy'n seiliedig ar brif egwyddorion sy'n canolbwyntio ar:** prif flaenoriaethau polisi; ychwanegu gwerth; effeithiau a chanlyniadau (yn cynwys amodoldeb a denu buddsoddiad); cyflawni

¹ **Fframwaith Ariannol yr UE 2014-2020: pecyn o gynigion**

cyd-fendithion

- **Cyfleuster Cysylltu Ewrop:** cefnogi rhwydweithiau digidol, ynni a thrafnidiaeth. Cyllideb o €40 biliwn ynghyd â €10 biliwn wedi'i neilltuo o'r Gronfa Cydlyniant. Mae hyn hefyd yn cynnwys y defnydd o "Fondiau Prosiectau yr UE" er mwyn cyflawni prosiectau pwysig
- **Dwy dreth UE newydd** ("adnoddau'r UE ei hun"): TAW UE a Threth Trafodion Ariannol yr UE
- **Newidiadau i ad-daliad y DU:** newid ad-daliad blynyddol y DU am un cyfandaliad o €3.6 biliwn

Dyrennir **€336 biliwn** i'r **Polisi Cydlyniant**, sy'n ostyngiad bach ar gyllideb 2007-2013 (€347.1 biliwn), er bod y Cyfleuster Cysylltu Ewrop yn cael ei ystyried yn rhan o'r Polisi Cydlyniant, sydd felly'n cynyddu'r cyfanswm i **€376 biliwn**. Cynigir **Amcan "Rhanbarthau Trosiannol"** i bob rhanbarth sydd â chynnyrch mewnwladol crynswth o rhwng 75% a 90% o gyfartaledd yr UE. Cynigir isafswm gwariant ar Gronfa Gymdeithasol Ewrop a fydd yn gwarantu o leiaf 25% o'r cyllid cydlyniant ar gyfer cyflogadwyedd/hyfforddiant. Cynigir elfen gryfach o **amodoldeb** o ran sicrhau bod effaith y polisi'n cael ei danlinellu.

Mae **cyllideb y polisi amaethyddol cyffredin (€372 biliwn)** wedi aros yn eithaf tebyg, er bod cyfran y polisi o'r holl gyllideb yn gostwng erbyn 2020 i tua 35%, tra bod Datblygu Gwledig (Piler 2) yn cymryd cyfran fwy (€90 biliwn). Mae'r pwyslais ar wneud y polisi amaethyddol cyffredin yn fwy gwyrdd, gan gynnwys gwneud 30% o'r gefnogaeth uniongyrchol dan Piler 1 yn amodol ar gymryd mesurau gwyrdd. Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnig cyflwyno ffordd decach o ddosbarthu cefnogaeth uniongyrchol ledled Ewrop a chyflwyno cap ar daliadau i fusnesau ffermydd mawr.

Cynigir **Cronfa Wrth Gefn Cymorth Brys newydd (€2.5 biliwn)** ar gyfer argyfyngau (fel diogelwch bwyd) ond mae hyn tu hwnt i'r **Fframwaith Amlflwyddyn Ariannol**.

Mae cynnydd sylweddol yn yr arian sydd wedi'i glustnodi ar gyfer nifer o elfennau yn y gyllideb: Horizon 2020: **€80 biliwn** wedi'i glustnodi ar gyfer Rhaglen Arloesi a Fframwaith newydd

- Addysg, hyfforddiant a phobl ifanc: **€15.2 biliwn**
- Cystadleurwydd a Rhaglen Busnesau Bach a Chanolig: **€2.3 biliwn**

Cynigion drafft yw'r rhain a gall y **fframwaith** terfynol newid gryn dipyn, yn enwedig o ran y cyfanswm cyffredinol a gwerth y llinellau unigol yn y gyllideb a'r amryw raglenni ariannu.

Bydd y trafodaethau'n cael eu cynnal dros y 18 i 24 mis nesaf yng Nghyngor y Gweindogion (ac, yn y pen draw, y Cyngor Ewropeaidd) a Senedd Ewrop, gyda'r Comisiwn yn gweithredu fel brocer i sicrhau cytundeb.

Cyd-destun y cynnig

Lansiodd y Comisiwn ddadl ar ddyfodol y **fframwaith** ym mis Mehefin 2008 gydag ymgynghoriad cyhoeddus, a dilynwyd hynny gyda chyhoeddi **Adolygiad o Gyllideb yr UE**² ym mis Hydref 2010, a amlinellodd nifer o amcanion ac egwyddorion fel sail i'r gwaith o baratoi **fframwaith** newydd, er mwyn i'r UE ymdrin yn well â'r materion newydd sy'n ei wynebu.

Mae'r ddadl hon wedi'i chynnal yng nghanol yr argyfwng ariannol, argyfwng ardal yr ewro, argyfwng diogelwch bwyd (yn arbennig yn 2009), y pryderon cynyddol ynghylch ynni, mewnfudo a'r pwyslais ar newid hinsawdd a newid demograffig. Mae Strategaeth Ewrop 2020 (gyda'r pwyslais ar dwf deallus, cynaliadwy ac arloesol) a "llywodraethiant economaidd" cryfach yn darparu'r fframwaith strategol i'r Comisiwn er mwyn iddo "foderneiddio" y gyllideb fel y gall fodloni'r

² COM(2010)700. Gweler **gwefan yr adolygiad o gyllideb yr UE**, sy'n cynnwys "atodiad technegol" 36 tudalen. Gweler hefyd Commission's **ddatganiad i'r wasg y Comisiwn a chwestiynau cyffredin**

"heriau" newydd sy'n wynebu Ewrop.

Perthnasedd i Gymru

Y ddwy elfen fwyaf o gyllideb bresennol yr UE yw'r polisi cydlyniant a'r polisi amaethyddol cyffredin, ac mae Cymru'n cael tua €4.5 biliwn o'r ddwy elfen hon yng nghyllideb 2007-2013:

- mae tua €2.1 biliwn o bolisi cydlyniant yr UE yn mynd ar raglenni'r cronfeydd strwythurol yng Nghymru;
- mae tua **€370 miliwn y flwyddyn** yn mynd i ffermwyr fel taliad sengl o dan Biler 1 o'r polisi amaethyddol cyffredin, ynghyd â **€340 miliwn ychwanegol dros y saith mlynedd** o dan y Rhaglen Datblygu Gweldig (Piler 2 o'r polisi amaethyddol cyffredin).

Yn ogystal â hyn, gall sefydliadau yng Nghymru wneud ceisiadau am amryw o raglenni ariannu'r UE, fel y Rhaglen Fframwaith Ymchwil a'r rhaglenni dysgu gydol oes.

Yn ystod y Trydydd Cynulliad, cynhaliodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ymchwiliad hir i ddyfodol polisi cydlyniant yr UE, a oedd yn cynnwys trafodaethau ar gyllideb yr UE. Ym mis Chwefror 2011, cafodd y pwyllgor dystiolaeth gan Gomisiynydd Cyllideb yr UE, Janusz Lewandowski³.

Safbwynt Llywodraeth y DU

Bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Memorandwm Esboniadol ym mis Gorffennaf yn amlinellu ei hymateb i gynigion y Comisiwn. Bydd yr adran hon yn cael ei diweddarau'n unol â hynny. Fodd bynnag, mae'r memorandwm newydd yn debygol o ailddatgan y safbwynt a gyhoeddodd Llywodraeth

³ EUR(3)-02-11: trawsgriafiad o gyfarfod 1 Chwefror 2011

y DU mewn ymateb i'r Adolygiad o Gyllideb yr UE, sydd wedi'i grynhofu isod. Gwneir cyfeiriadau hefyd at femoranda esboniadol perthnasol eraill Llywodraeth y DU.

Cafwyd ymateb buan gan swyddogion Llywodraeth y DU a oedd yn beirniadu cynigion y Comisiwn am fod yn rhy fawr tra'n amddiffyn y sefyllfa bresennol o ran yr ad-daliad⁴.

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU⁵ ar yr Adolygiad o Gyllideb yr UE yn amlinellu dau amcan ar gyfer y trafodaethau ar y **fframwaith**:

- gostyngiad mewn "termau real" o'i gymharu â fframwaith 2007-2013
- amddiffyn ad-daliad y DU

Mae hefyd yn mynegi siom nad yw'r Adolygiad o Gyllideb yr UE yn canolbwyntio fwy ar flaenoriaethu a nodi lle y gellir arbed arian, gan alw am wario cyfran fwy o gyllideb y dyfodol ar flaenoriathau Ewrop 2020 sy'n cefnogi twf a chystadleurwydd, mynd i'r afael â newid hinsawdd a mynd i'r afael â thlodi byd-eang. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn gwrthwynebu ar ei ben unrhyw fwriad i gyflwyno trethi newydd gan yr UE er mwyn ariannu'r gyllideb.

Mae safbwynt Llywodraeth y DU ar ddyfodol y polisi amaethyddol cyffredin yn wahanol i safbwynt y tair llywodraeth datganoledig, sy'n amddiffyn polisi cryf, yn enwedig Piler 1, sef y taliadau uniongyrchol i ffermwyr⁶.

Ar y polisi cydlyniant, mae Llywodraeth y DU yn derbyn polisi UE-gyfan tan 2020, gan gynnwys arian cydgyfeiriant i ardaloedd tlotach mewn Aelod-wladwriaethau "cyfoethog" (e.e. Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn y DU). Fodd bynnag, mae Llywodraeth y

⁴ Gweler <http://www.bbc.co.uk/news/uk-politics-14006951>

⁵ **EM 15285/10** – death i law'r Cynulliad 24 Tachwedd 2010

⁶ Gweler **Safbwynt cytûn gweinidogion datblygu gwledig llywodraethau datganoledig a Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU ar y pumed adroddiad ar gydlyniant**

DU o blaid ailganolbwyntio adnoddau ar yr Aelod-wladwriaethau tlotaf, ac hefyd leihau'n sylweddol y cyfanswm a roddir i'r polisi cydlyniant⁷.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Cyflwynodd Llywodraeth flaenorol Cymru ymateb i'r Adolygiad o Gyllideb yr UE ym mis Ebrill 2008⁸.

O gofio'r arian sylweddol a ddaw i Gymru o'r polisi amaethyddol cyffredin a'r cronfeydd strwythurol, dyma brif bwyslais safbwynt Llywodraeth Cymru.

Gwnaed cyfeiriad at Gyllideb yr UE yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar y pumed adroddiad ar gydlyniant (mis Chwefror 2011)⁹, a oedd yn datgan bod angen i'r polisi cydlyniant gael adnoddau digonol a phriodol er mwyn cefnogi amcanion Ewrop 2020, yn ogystal â thanlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i bolisi cydlyniant UE-gyfan i'r holl ranbarthau, gan ganolbwyntio ar yr ardaloedd tlotaf (yn cynnwys ardaloedd yn yr Aelod-wladwriaethau cyfoethocach), gyda darpariaeth o gefnogaeth drosiannol deg i ardaloedd sy'n symud allan o Gydgyfeiriant¹⁰.

Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru'n ffafrio parhau â pholisi amaethyddol cyffredin, gyda thaliadau uniongyrchol i ffermwyr yn cael eu gweld fel ffynhonnell incwm hanfodol i ddiogelu gweithgarwch amaethyddol ledled Cymru.¹⁰

⁷ **Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU ar y pumed adroddiad ar gydlyniant**

⁸ Gweler **gwefan Llywodraeth Cymru**

⁹ Gweler **gwefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru**

¹⁰ Gweler hefyd ddatganiad ysgrifenedig (23 Mehefin) gan Alun Davies, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, yn dilyn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar yr Undeb Ewropeaidd a gynhaliwyd ar 13 Mehefin.

Cynnydd y cynigion drwy sefydliadau'r UE

Bydd yr adran hon yn cael ei diweddaru wrth i drafodaethau ddatblygu ym Mrwsel ac wrth i safbwyntiau swyddogol sefydliadau'r UE ddod yn wybyddus. Ar gyfer y diweddariad hwn (1 Gorffennaf 2011) cynhwysir gwahanol safbwyntiau'r sefydliadau ar yr Adolygiad o Gyllideb yr UE.

Senedd Ewrop:

Roedd ymateb cychwynnol yr Athro Danuta Hübner, Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol, yn gadarnhaol. Dywedodd fod y cynnig yn un da iawn sydd wedi ystyried safbwynt Senedd Ewrop. Mabwysiadodd y Senedd ei safbwynt mewn cynnig ar 8 Mehefin¹¹. Mae hwn yn cefnogi polisi cydlyniant UE-gyfan, cyllideb gref ar gyfer y polisi amaethyddol cyffredin, ailganolbwyntio ar strategaeth 2020, a chynnydd o 5% yn y gyllideb.

Cyngor y Gweinidogion:

Roedd yr ymateb cychwynnol gan Guido Westerwelle, Gweinidog Tramor yr Almaen, yn canolbwyntio ar werth cyffredinol y gyllideb, gan ei disgrifio fel cyllideb a oedd ymhell tu hwnt i'r hyn yr oedd yr Almaen yn ei ystyried yn dderbyniol. Roedd Llywodraeth yr Iseldiroedd yr un mor feirniadol, ac ymateb Ffrainc oedd datgan y byddai'n ymladd i amddiffyn cyllideb gref i'r polisi amaethyddol cyffredin.

Mae Llywyddiaeth Gwlad Pwyl o'r UE wedi nodi ei phryderon o ran ceisio rhwystro'r Aelod-wladwriaethau mwy (Ffrainc a'r DU yn benodol) rhag rhwystro'r Comisiwn rhag gwreiddu ei gynlluniau drwy amddiffyn sefyllfa bresenol y polisi amaethyddol cyffredin a lleihau'r polisi cydlyniant er mwyn gostwng yr holl gyllideb. Mae Gwlad Pwyl yn ffafrio polisi amaethyddol cyffredin sy'n rhoi dyraniad mwy cyfartal ledled yr UE (a ffermwyr canolbarth a dwyrain Ewrop yn benodol), ac

¹¹ Adroddiad gan Salvador Garriga Polledo, ASE o Sbaen

yn amddiffyn yn gryf bolisi cydlyniant UE-gyfan a gaiff ei ariannu'n dda, fel elfen hanfodol o undod yr UE.

Eraill:

Ymatebodd Pwyllgor y Rhanbarthau a'r Pwyllgor Economaidd a Rhanbarthol ill dau yn gadarnhaol i gynigion y Comisiwn:

- Datganiad gan Lywydd Pwyllgor y Rhanbarthau
- Datganiad gan Lywydd y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol

Mae'r lincs isod yn lincs i'r wasg a'r cyfryngau yn yr UE:

- [EU Observer](#)
- [Euractiv](#)
- [European Voice](#)

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â

Gregg Jones (Gregg.Jones@wales.gov.uk)

Pennaeth Swyddfa'r UE

Ffôn: 0032 2 226 6692

Ffôn symudol: 0044 7816 164455

Cyfeiriad:

Swyddfa'r UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tŷ Cymru

6ed Llawr, 11 Rond Point Schuman

Brwsel B-1040

Gwlad Belg